Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Disgrifiad Swydd: Arweinydd Cydraddoldeb (Hil)

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | *Ar y cyd- Gwasanaethau Pobl* |
| **Teitl y Swydd:** | *Arweinydd Cydraddoldeb ((Hil))* |
| **Adran:** | *Gwasanaethau Pobl* |
| **Cyflog:** | Gradd 9 (£46,735 i £55,755 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS). |
| **Oriau gwaith:** | *35 awr* |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan fis Gorffennaf 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton/Campws y Bae. Bydd trefniant gweithio hybrid ar gael. |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod ymysg y 30 o brifysgolion gorau, mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe. Rhaid i'r gweithlu hwnnw feddu ar y sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain a goruchwylio cyflawni Cynllun Gweithredu Siarter Cydraddoldeb Hiliol (REC) y Brifysgol ar gyfer staff a myfyrwyr. Byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau cydraddoldeb hiliol yn cael eu gweithredu a'u monitro'n llwyddiannus, fel y nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol.<br><br>Mae'r REC yn fframwaith a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y sector addysg uwch (AU) a thu hwnt. Sefydlwyd y siarter yn 2015 mewn ymateb i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Bydd deiliad y swydd yn cefnogi Cadeirydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol (REC) a'r Tîm Hunanasesu (SAT) i ddatblygu'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Siarter Hiliol sy'n cyfrannu at gymuned Prifysgol amrywiol. Bydd yn gweithio ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb Hiliol ac yn chwarae rhan allweddol wrth lunio a chydlynu blaenoriaethau cydraddoldeb hiliol y Brifysgol, gan symud ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r amcanion hyn.<br><br>Byddwch yn gweithio'n agos gyda Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn, Arweinydd Arbenigwr Pobl, y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol, y Tîm Arweinyddiaeth Uwch, a rhanddeiliaid allweddol eraill i reoli'r holl weithgareddau a dogfennaeth berthnasol sy'n ofynnol i gyflawni a chynnal statws Efydd REC. Bydd deiliad y swydd yn arwain mentrau i gael effaith ar newid diwylliannol cadarnhaol, codi ymwybyddiaeth a gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb hiliol ar draws y Brifysgol. Gan weithredu gyda phwrpas, bydd yn hyderus wrth gynghori, dylanwadu, a lle bo angen, herio, gan ddefnyddio ei arbenigedd proffesiynol. Bydd hefyd yn gwerthuso effaith ac yn adrodd ar gynnydd i sicrhau gwelliant cynaliadwy, mesuradwy mewn canlyniadau cydraddoldeb hiliol. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | • Datblygu perthnasoedd cryf ag uwch arweinwyr, rhanddeiliaid a rheolwyr llinell i feithrin dealltwriaeth o lefelau presennol cydraddoldeb hiliol, gan nodi bylchau a risgiau i gynnydd yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | • Yn gyfrifol am gyflwyno cais am REC ar gyfer Prifysgol Abertawe a gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr holl ymholiadau a gwybodaeth gysylltiedig â'r REC.<br>• Yn gyfrifol am weithredu canlyniadau cydraddoldeb hiliol staff a myfyrwyr fel y'u nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Hiliol y Brifysgol, gan weithio gydag ystod eang o gydweithwyr a rhanddeiliaid.<br>• Cefnogi'r Tîm Hunanasesu (SAT) gan sicrhau bod y grŵp yn gweithredu'n effeithiol, trefnu cyfarfodydd, paratoi agendâu, olrhain camau gweithredu a chefnogi llywodraethu'r holl ddogfennau.<br>• Drafftio a chyflwyno cynlluniau prosiect, papurau, adroddiadau a briffiau o safon ar gyfer pwyllgorau a Thimau Arweinyddiaeth perthnasol.<br>• Mabwysiadu ymagwedd gwelliant parhaus, defnyddio gwybodaeth reoli pobl i sicrhau bod atebion cydraddoldeb yn ychwanegu gwerth, eu bod yn unol â gweledigaeth y Brifysgol ac yn sbarduno perfformiad cynaliadwy ar gyfer y Brifysgol.<br>• Dylunio, cyflwyno a gwerthuso hyfforddiant cydraddoldeb hiliol penodol ac ymyriadau wedi'u hwyluso sy'n sbarduno newid diwylliannol ystyrlon, a chyflawni canlyniadau mesuradwy yn unol ag amcanion cydraddoldeb strategol gweledigaeth y Brifysgol.<br>• Bod yn gyfrifol am weithio'n gydweithredol â chydweithwyr ar draws yr adran Rheoli Pobl i ddatblygu mewnwelediadau, blaenoriaethau a gweithgareddau a rennir fel rhan o gynllun a strategaeth sefydliadol<br>• Datblygu a rheoli prosiect cynllun cyfathrebu i gefnogi newid diwylliant.<br>• Yn gyfrifol am gyflwyno digwyddiadau Cydraddoldeb Hiliol, gan gynnwys rhaglen o weithgareddau sy'n ymgorffori gwaith REC ar lefel sefydliadol ac unigol, gan weithredu newid cadarnhaol.<br>• Mynychu digwyddiadau perthnasol REC a meithrin perthnasoedd â chydweithwyr allanol, gan gasglu cefnogaeth ac arweiniad, a nodi meysydd arfer da.<br>• Ymgymryd ag ymchwil, meincnodi, dadansoddi data a risg sy'n hysbysu amcanion cydraddoldeb strategol y Brifysgol.<br>• Defnyddio arddull hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth i alluogi rheolwyr llinell a rhanddeiliaid sy'n arwain mentrau cydraddoldeb i fod yn atebol am gyflawni canlyniadau perfformiad yn eu Cyfadran/Cyfarwyddiaethau eu hunain.<br><br>Bydd yr holl feini prawf hanfodol yn cael eu gwerthuso yn y cyfweliad. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | • Sicrhau cyfrinachedd a chywirdeb holl wybodaeth y Gwasanaethau Pobl yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth a Chodau Ymarfer perthnasol eraill gan gynnwys Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol.<br>• Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cyfarwyddyd Arweinydd Arbenigol Pobl y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd.<br>• Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gweithio a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>• Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a thrwy ddatblygu diwylliant cadarnhaol o ran iechyd a diogelwch.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn rhan gynhenid o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â chyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd:[Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol] a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |

| | |
|---|---|
| | Yn ogystal, byddwch chi'n gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth:<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ein datblygu ein hunain a'n timau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy'n darparu canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, cefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesedd a newid, gan wella'r Brifysgol, a pherfformiad timoedd ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timoedd i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i ragori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym ni'n gyfrifol am greu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, meithrin ymddiriedaeth, parch a herio. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, gan gyfleu'r "darlun mawr" a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn ofalgar**<br>Rydym yn creu amgylchoedd sy'n nodi, yn deall ac yn rhoi blaenoriaeth i anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd). Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timau i ddarparu'r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>**Cymwysterau:**<br>• Cymhwyster Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (yn barod i weithio tuag ato) neu brofiad cyfatebol<br>• Addysg hyd at lefel Gradd Israddedig a/neu brofiad gwaith profedig.<br><br>**Profiad:**<br><br>1. Gwybodaeth gadarn am ddeddfwriaeth Cydraddoldeb ac arfer gorau mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â thueddiadau allweddol mewn cydraddoldeb er mwyn creu, rheoli a dylanwadu ar newid polisi ac atebion effeithiol.<br>2. Profiad sylweddol o arwain yn effeithiol ar gydraddoldeb hiliol<br>3. Arbenigedd wrth gyflwyno cynllun gweithredu sy'n cyflawni'r amserlenni y cytunwyd arnynt yn ôl safonau y cytunwyd arnynt, gan gymryd cyfrifoldeb gyda rhanddeiliaid am gamau gweithredu amgen lle bo angen. Tystiolaeth bod gweithredu wedi cael effaith gadarnhaol.<br>4. Y gallu i ennill cefnogaeth ac ysgogi newid sefydliadol gan ddefnyddio dulliau hyderus a chydweithredol, gan ddangos gwydnwch a phenderfyniad i gyflawni cynnydd<br>5. Hanes profedig o fodelu ymddygiadau arweinyddiaeth ar lefel uwch.<br>6. Y gallu dangosadwy i gyfathrebu'n broffesiynol, yn gyfrinachol, yn ddoeth ac yn effeithiol i safon uchel yn ysgrifenedig yn ogystal ag ar lafar.<br>7. Profiad o gynllunio, datblygu a chyflwyno amrywiaeth o ymyriadau sy'n cael effaith ac yn cyflawni canlyniadau o safon.<br>8. Y gallu i reoli prosiectau a chynlluniau gweithredu gyda phrofiad o fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch.<br>9. Profiad o rwydweithio, cysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol.<br>10. Profiad o ddadansoddi data a chynhyrchu adroddiadau dadansoddol manwl.<br>11. Tystiolaeth o sganio'r gorwel ac ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol, meincnodi ac adnabod tueddiadau ymchwil ac ymagweddau arloesol i alluogi gwelliannau.<br>12. Profiad o weithio mewn amgylchedd gwaith cyfrinachol a chadw at Reoliadau GDPR |

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>Dull gwaith systematig, trylwyr a threfnus gyda thystiolaeth o'r gallu i weithio i derfynau amser heb fawr oruchwyliaeth, gan dalu sylw i fanylion.<br>Tystiolaeth o'r gallu i ddefnyddio menter bersonol a gweithio'n annibynnol, gan wybod pryd i geisio rhagor o gyngor.<br>Profiad amlwg o weithio ar y cyd â thimau traws-swyddogaethol.<br>Sgiliau TG gan gynnwys profiad o ddefnyddio Pecyn Microsoft Office, yn enwedig Outlook, Word, PowerPoint ac Excel.<br><br>**Y Gymraeg:**<br>Lefel 0 – Dim angen sgiliau Cymraeg<br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br><br>Gwybodaeth a phrofiad o'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol<br>Gwybodaeth neu brofiad o weithio yn y sector Addysg Uwch.<br>Gallu cyfathrebu yn Gymraeg |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Amira Guirguis, (Amira.Guirguis@abertawe.ac.uk) neu'r Arweinydd Cydraddoldeb, Misbha Khanum (m.khanum@abertawe.ac.uk) |

Stonewall CYMRU DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH